office of the independent adjudicator

'for students in higher education'

# Y fframwaith arfer da:

## *Ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd*

## *Cyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill*

Academic Registrars Council

Association of Heads of University Administration

Bromley Schools' Collegiate — Excellence Through Experience

nus national union of students

office of the independent adjudicator

QAA

WCG

Mawrth 2019

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Rhestr Astudiaethau Achos | 4 |
| Rhagarweiniad | 5 |
| Darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr | 6 |
| **Trefniadau sy'n ymwneud â mwy nag un corff dyfarnu graddau** | 6 |
| **Trefniadau sy'n ymwneud â darparydd dyfarnu a darparydd cyflwyno** | 6 |
| **Trefniadau rhwng darparydd Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn yr Ysgol (HCAY) a phrifysgol sy'n bartner iddo** | 12 |
| Trefniadau trawswladol | 14 |
| **Darparwyr yng Nghymru neu Loegr sydd â champysau mewn awdurdodaeth arall** | 14 |
| **Dyfarniadau ar y cyd (a.y.b.) lle mae un darparydd dyfarnu y tu allan i Gymru a Lloegr** | 14 |
| **Darparwyr cyflwyno yng Nghymru neu Loegr sydd â darparwyr dyfarnu y tu allan i Gymru a Lloegr** | 15 |
| **Darparwyr dyfarnu yng Nghymru neu Loegr a darparwyr cyflwyno y tu allan i Gymru a Lloegr** | 15 |
| **Gofynion rheoleiddio** | 16 |
| Darparwyr â threfniadau cydweithredol lluosog | 19 |
| Pan fydd trefniadau rhwng darparwyr sy'n bartneriaid yn dod i ben | 20 |
| Rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr | 21 |
| Prydlondeb | 22 |
| Rhoi cymorth i fyfyrwyr gyflwyno eu cwynion ac apeliadau academaidd | 23 |
| Atodlen: Cymwysterau a ddyfernir gan sefydliadau dyfarnu allanol yng Nghymru a Lloegr | 24 |
| Adran Geirfa | 27 |

# Rhagair

**Y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd.** Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Rhagfyr 2014 ac fe'i diwygiwyd yn Rhagfyr 2016. Mae'r adran hon yn cynnwys rhai canllawiau arfer da pellach ar ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yng nghyd-destun darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill.

Paratowyd y canllawiau hyn gan SDA mewn ymgynghoriad â grŵp llywio'r Fframwaith Arfer Da. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd drafft ar gyfer ymgynghori, a derbyniwyd cyflwyniadau gan ddarparwyr sy'n aelodau, cyrff cynrychioli myfyriwr a chyrff eraill yn y sector addysg uwch.

Mae trefniadau cydweithredol yn y sector addysg uwch yn amrywiol ac yn aml yn gymhleth. Canllaw yw hon ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yng nghyd-destun trefniadau o'r fath. Mae'n gosod allan egwyddorion arfer da gweithredol, ond nid yw'n cynnwys manylion cyfarwyddol.

Maes o law, mae'n bosibl y caiff y canllawiau hyn eu hehangu i gynnwys enghreifftiau eraill o gyflwyno cyfleoedd dysgu gydag eraill, fel dysgu yn y gweithle a lleoliadau gwaith.

O'r flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen, bydd y canllawiau hyn yn llywio'r ffordd y mae SDA yn ystyried cwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau a ddarperir drwy drefniant cydweithredol sy'n ymwneud â mwy nag un darparydd neu ddarparydd a sefydliad dyfarnu arall.

# Rhestr Astudiaethau Achos

## Darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr


| | |
|---|---|
| **Astudiaeth Achos 1: Cwyn am gyfleusterau** | **11** |
| **Astudiaeth Achos 2: Apêl academaidd a chŵyn am oruchwyliaeth prosiect** | **11** |
| **Astudiaeth Achos 3: Cwyn am safonau addysgu a deunyddiau'r cwrs** | **12** |
| **Astudiaeth Achos 4: Hyfforddai HCAY** | **13** |


## Trefniadau trawswladol


| | |
|---|---|
| **Astudiaeth Achos 5: Gradd ar y cyd - apêl academaidd** | **17** |
| **Astudiaeth Achos 6: Gradd ar y cyd - cwyn am lety** | **17** |
| **Astudiaeth Achos 7: Rhaglen ar y cyd â thri darparydd dyfarnu** | **18** |
| **Astudiaeth Achos 8: Dyfarniad deuol** | **18** |


## Atodlen: Cymwysterau a ddyfarnwyd gan sefydliadau dyfarnu allanol yng Nghymru a Lloegr


| | |
|---|---|
| **Astudiaeth Achos 9** | **26** |
| **Astudiaeth Achos 10** | **26** |

# Rhagarweiniad

**1.** Mae'r Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd, yn nodi egwyddorion craidd sy'n berthnasol i bob darparydd addysg uwch sy'n aelod o SDA. Dyma nhw: **hygyrchedd; eglurder; cymesuredd; prydlondeb; tegwch; annibyniaeth; cyfrinachedd; a gwella profiad myfyrwyr**. Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys canllawiau arfer da ar strwythur gweithdrefnau cwynion ac apeliadau academaidd, gan gynnwys nifer a ffurf y camau ym mhob proses. Dylai darparwyr gyfeirio at y prif Fframwaith am arweiniad ar y materion hynny.

**2.** Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn cynnig cyfleoedd dysgu ar y cyd ag un neu fwy o ddarparwyr neu sefydliadau dyfarnu eraill, yn y DU neu dramor. Mewn achosion lle mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd, mae egwyddorion prydlondeb a chymesuredd yn arbennig o bwysig: ni ddylai myfyrwyr orfod aros yn hirach na mynd drwy gamau gweithdrefnol diangen, dim ond oherwydd bod mwy nag un darparydd yn rhan o'r broses.

**3.** Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn amlinellu canllawiau arfer da ychwanegol i ddarparwyr eu hystyried wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yng nghyd-destun cyflwyno cyfleoedd dysgu mewn addysg uwch gydag eraill.

**4.** Mae'r canllawiau hyn yn ystyried trefniadau domestig, lle mae'r darparwyr a/neu'r cyrff dyfarnu dan sylw yng Nghymru neu Loegr, yn ogystal â threfniadau trawswladol. Weithiau mae pob un o'r darparwyr sy'n ymwneud â'r trefniant yn aelodau o Gynllun SDA, ond nid dyma yw'r achos bob tro. Pan fo'r darparydd wedi dod yn aelod o Gynllun SDA gan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, mae unrhyw gyfeiriad at "fyfyrwyr" yn golygu myfyrwyr sy'n astudio ar gwrs addysg uwch[1] a all gwyno i SDA.

**5.** Mae'r canllawiau yn cyflenwi'r "disgwyliadau" a'r "dangosyddion" a osodir allan yn nogfen yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd: Cod Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ('Cod Ansawdd y DU, ASA'), yn enwedig Pennod B9 (Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr) a Phennod B10 (Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill)[2].

**6.** Mae sawl math o drefniant cydweithredol, ac mae modelau cyflwyno newydd yn debygol o ddod i'r amlwg a fydd yn golygu heriau newydd. Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith gweithredol ar gyfer darparwyr sy'n gweithio gydag eraill i gynnig darpariaeth addysg uwch; nid yw'n gosod canllawiau cyfarwyddol ar gyfer pob math o drefniant.[3]

**7.** Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd. Bydd materion eraill sy'n codi yng nghyd-destun darparu cyfleoedd dysgu gydag eraill, er enghraifft materion sy'n codi o weithdrefnau disgyblu a materion sy'n benodol i fyfyrwyr ymchwil, yn destun canllawiau ar wahân.

---

1 http://www.oiahe.org.uk/glossary.aspx#hecourse

2 http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code

3 Nid yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu pob math o drefniant. Er enghraifft, lle mae darparwr yn llogi ystafelloedd cyffredinol o sefydliad arall i gynnal arholiadau, ni fyddai trefniant o'r fath yn dod o fewn y canllawiau hyn. Nid yw trefniadau o'r fath o fewn cwmpas Pennod B10 Cod Ansawdd y DU, ASA chwaith.

# Darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr

## Trefniadau sy'n ymwneud â mwy nag un corff dyfarnu graddau

**8.** Mae rhai darparwyr yng Nghymru a Lloegr yn cydweithio i gynnig cyfleoedd dysgu sy'n arwain, er enghraifft, at ddyfarniadau ar y cyd, dyfarniadau dwbl neu luosog, dyfarniadau deuol neu ddyfarniadau cydamserol. Mae mathau eraill o drefniant yn bodoli, ac mae modelau cyflwyno newydd yn debygol o ddod i'r amlwg.

**9.** Mae darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau yn y DU yn dod o dan God Ansawdd y DU, ASA sy'n datgan:

'Yn achos dyfarniadau ar y cyd a deuol/dwbl neu luosog, mae'r partneriaid yn penderfynu ar y cyd sut yr ymdrinnir ag unrhyw apeliadau neu gwynion a sut y caiff y prosesau eu gweinyddu (er enghraifft, dynodi un corff dyfarnu graddau i gymryd y prif gyfrifoldeb. Rhoddir gwybodaeth glir i fyfyrwyr ar raglenni a gyflwynir ar y cyd am y weithdrefn i'w dilyn a pha sefydliad(au) y dylid mynd atynt ar y dechrau er mwyn cyflwyno cwyn neu apêl.'[4]

**10.** Mae darparwyr yng Nghymru a Lloegr sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU yn aelodau o Gynllun SDA[5]. Mae'n arfer da i'r cytundeb rhwng y darparwyr nodi pa ddarparydd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gweithdrefnau cwynion ac apeliadau academaidd. Dylai'r darparydd hwnnw gyhoeddi'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y weithdrefn berthnasol, gan alluogi'r myfyriwr i gwyno i SDA os yw'n dymuno gwneud hynny.

## Trefniadau sy'n ymwneud â darparydd dyfarnu a darparydd cyflwyno

### 1. Rôl y darparydd dyfarnu a'r darparydd cyflwyno

**11.** Mewn rhai trefniadau, mae darparydd (y 'darparydd cyflwyno') yn cynnig cyfle dysgu cyfan neu ran ohono sy'n arwain at gymhwyster, neu ran o gymhwyster, a ddyfernir gan ddarparydd arall (y 'darparydd dyfarnu'). Gall hyn fod, er enghraifft, dan drefniant dilysu neu ryddfaint[6].

**12.** Mae'n arfer da i'r cytundeb ysgrifenedig rhwng y darparwyr nodi rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd. Yn fras, mater i'r darparwyr benderfynu ymysg ei gilydd yw sut mae rhannu cyfrifoldebau ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd[7]. Serch hynny, mae hyn yn amodol ar ganllawiau a nodir isod.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i'r cytundeb ysgrifenedig rhwng y darparwyr nodi rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd.

---

4 Gweler Dangosydd 18 o Bennod B10 o God Ansawdd y DU, ASA.

5 Mae'n ofynnol i ddarparydd sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU fod yn aelod o Gynllun SDA o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, fel y'i diwygiwyd.

6 At ddibenion y canllawiau hyn, mae i'r termau 'trefniant dilysu' a 'threfniant rhyddfraint' a thermau cysylltiedig, yr ystyron a nodir yn yr Adran Eirfa.

7 Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i ddarparwyr ystyried gofynion y llywodraeth neu gyrff rheoleiddio eraill wrth strwythuro eu trefniadau.

**13.** Yn y DU, fel arfer bydd gan y darparydd dyfarnu bwerau dyfarnu graddau yn y DU. Mae darparwyr o'r fath yn dod o dan God Ansawdd y DU, ASA sy'n datgan:

'Cyrff dyfarnu graddau sy'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, waeth ble y cânt eu cyflwyno neu bwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda mudiadau heblaw'r corff dyfarnu graddau'n cael eu gweithredu'n ddiogel a'u rheoli'n effeithiol.' [8]

**14.** Mae Pennod B10 o God Ansawdd y DU, ASA hefyd yn dweud:

'Yn achos cwynion ac apeliadau am faterion academaidd, mae gan fyfyrwyr mewn sefydliad cyflwyno hawl i apelio yn y pen draw at y corff dyfarnu graddau. Gall y corff dyfarnu graddau hefyd adolygu cwynion academaidd unwaith y bydd y gweithdrefnau yn y sefydliad cyflwyno wedi dod i ben. Mae cyrff dyfarnu graddau yn sicrhau bod eu cyfrifoldebau eu hunain, a rolau'r sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw, yn cael eu gwahaniaethu a'u hysbysebu'n glir. Maent yn sicrhau bod gan fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau cyflwyno wybodaeth glir am y llwybr cychwynnol ar gyfer gwneud apêl academaidd neu gŵyn ffurfiol, a threfn y prosesau a ddilynir. Maent hefyd yn egluro'r sianelau y gall myfyrwyr anfodlon fynd drwyddynt i gysylltu â'r corff dyfarnu graddau yn uniongyrchol.'[9]

**15.** Bydd darparydd dyfarnu sydd â phwerau dyfarnu graddau yn y DU bob amser yn dal gafael yn y cyfrifoldeb terfynol am **ansawdd academaidd a safonau academaidd** cyfleoedd dysgu sy'n arwain at ddyfarnu un o'i gymwysterau. Felly, dylai darparydd o'r fath ymwneud i ryw raddau ag apeliadau academaidd, a chwynion sy'n perthyn i safonau academaidd a/neu ansawdd y cyfle dysgu, lle bynnag mae'r cyfle dysgu hwnnw'n cael ei gynnig. Nodir canllawiau pellach isod.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Dylai darparydd dyfarnu ymwneud i ryw raddau ag apeliadau academaidd, a chwynion sy'n perthyn i safonau academaidd a/neu ansawdd y cyfle dysgu, lle bynnag mae'r cyfle dysgu hwnnw'n cael ei gyflwyno.

**16.** O dan lawer o drefniadau cydweithredol, y darparydd cyflwyno sy'n rheoli'r cyfle dysgu o ddydd i ddydd. Y darparydd cyflwyno sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys unrhyw broblemau - ac felly i ymdrin â chwynion - sy'n codi ynghylch materion o ddydd i ddydd sydd o fewn ei reolaeth. Mae'n debygol y bydd cyfraniad y darparydd cyflwyno yn fwy o dan drefniant dilysu, lle bydd gan y myfyriwr fel arfer berthynas gytundebol uniongyrchol â'r darparydd cyflwyno, o gymharu â threfniant rhyddfraint lle bydd gan y myfyriwr fel arfer berthynas gytundebol uniongyrchol â'r darparydd dyfarnu (rhyddfreinio).

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i'r darparydd cyflwyno fod yn gyfrifol am ymdrin â chwynion ynghylch materion sy'n ymwneud â rheoli'r cyfle dysgu mae'n ei gynnig o ddydd i ddydd.

**17.** Nid yw'r canllawiau hyn yn gyfarwyddol o ran sut i wahaniaethu rhwng gwahanol 'fathau' o gwynion neu apeliadau academaidd. Cydnabyddir bod llawer o gwynion ac apeliadau academaidd yn ymdrin â nifer o bethau, a gall pryderon myfyriwr am faterion o ddydd i ddydd sydd o fewn rheolaeth darparydd cyflwyno fod wedi'u cysylltu mewn ffordd annatod â phryderon o natur academaidd. Er enghraifft, gall myfyriwr gwyno neu gyflwyno apêl academaidd yn benodol ar y

8 Y Disgwyliad ym Mhennod B10 (Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill) o God Ansawdd y DU, ASA; ibid.

9 Gweler Dangosydd 18 o Bennod B10 o God Ansawdd y DU, ASA.

sail bod cyfleusterau labordy gwael, sydd o fewn rheolaeth o ddydd i ddydd y darparydd cyflwyno, wedi cael effaith negyddol ar ganlyniad asesiad a bennwyd gan y darparydd dyfarnu. Dylai darparwyr gymryd agwedd bragmatig wrth fynd ati i gytuno ymysg ei gilydd sut y bydd cwynion neu apeliadau academaidd o'r fath yn cael eu trin. Dylai darparwyr esbonio'r ymagwedd i'r myfyrwyr fel eu bod yn deall y broses a ddilynir.

**18.** Dylai'r darparwyr sicrhau bod rolau pob darparydd wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd wedi'u gosod allan yn glir yn y gweithdrefnau cwynion ac apeliadau academaidd eu hunain a/neu mewn dogfennau sy'n perthyn i gyrsiau unigol. Yn benodol, mae'n arfer da i'r gweithdrefnau a/neu ddogfennaeth y cwrs nodi pa ddarparydd y dylai'r myfyriwr fynd â chwyn neu apêl academaidd ato yn y lle cyntaf, dylent gynnwys amlinelliad o'r amgylchiadau lle gallai fod angen cyfeirio cwyn neu apêl academaidd ymlaen at ddarparydd gwahanol.

**19.** Nid oes angen i'r ddogfennaeth nodi'n fanwl sut yr ymdrinnir â phob cwyn neu apêl academaidd. Dylai'r darparydd sy'n derbyn y gŵyn neu'r apêl academaidd yn y lle cyntaf ddweud wrth y myfyriwr beth y mae angen iddo ei wneud os yw ef neu hi yn dymuno bwrw ymlaen â'r gŵyn neu'r apêl academaidd.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i esbonio yn nogfennau'r cwrs beth yw rôl pob darparydd wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd, yn ogystal â nodi pa ddarparydd y dylai'r myfyriwr gyfeirio cwyn neu apêl academaidd ato yn y lle cyntaf. Dylid hefyd amlinellu'r amgylchiadau lle mae'n bosibl y bydd angen ei chyfeirio at ddarparydd gwahanol, a dweud wrth y myfyriwr yr hyn y mae angen iddo ef neu hi ei wneud i symud ymlaen i'r cam nesaf.

**20.** At ddibenion SDA, nid yw'r gweithdrefnau mewnol wedi cael eu cwblhau nes bod unrhyw hawl i gyfeirio'r mater at y darparydd dyfarnu wedi dod i ben. Pan fydd y darparydd dyfarnu'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch apêl academaidd neu gŵyn, dylai wedyn gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'n aelod o Gynllun SDA. Ni ddylai'r darparydd cyflwyno gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ôl gorffen ystyried y gŵyn neu apêl academaidd os oes gan y myfyriwr yr hawl wedyn i gyfeirio'r mater at y darparydd dyfarnu. (Mae trefniadau gwahanol yn berthnasol mewn achos pan fydd darparydd yn cyflwyno cwrs sy'n arwain at gymhwyster addysg uwch a ddyfernir gan sefydliad dyfarnu a reoleiddir gan Ofqual neu Gymwysterau Cymru. Gweler yr Atodlen i'r Canllawiau hyn.)

**PWYNT ALLWEDDOL**

At ddibenion SDA, nid yw'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd wedi dod i ben nes bod unrhyw hawl i gyfeirio'r mater at y darparydd dyfarnu wedi dod i ben.

**21.** Mae'r paragraffau isod yn rhoi sylw manylach i sut yr ymdrinnir ag apeliadau academaidd a chwynion. Dylid eu darllen o fewn cyd-destun y pwyntiau cyffredinol am swyddogaeth y darparydd cyflwyno a'r darparydd dyfarnu mewn trefniadau yng Nghymru a Lloegr a ddisgrifir uchod.

## 2. Ymdrin ag apeliadau academaidd

**22.** Yn achos apeliadau academaidd, mae'n bosibl na fydd yn hawdd eu datrys yn gynnar, serch hynny mae'n arfer da i fyfyrwyr gael cyfle i ofyn am eglurhad o benderfyniad bwrdd asesu neu arholi, neu gael cyfle i drafod eu pryderon gydag aelod staff a enwebwyd. Fel arfer, y darparydd cyflwyno sydd yn y sefyllfa orau i gynnig hyn.

**23.** Mae'n arfer da i broses apeliadau academaidd gynnwys cam **ffurfiol** ar gyfer ymchwilio a dod i benderfyniad ar apeliadau academaidd, ac yna cam **adolygu**. Nodir canllawiau pellach ar fformat y camau hyn yn y prif Fframwaith Arfer Da.

(i) Gall y darparydd dyfarnu neu'r darparydd cyflwyno gynnal y cam **ffurfiol** (ymchwiliad), yn dibynnu ar ba drefniadau sydd ganddynt. Er enghraifft, mewn trefniant wedi'i ddilysu gyda chyd-fwrdd academaidd sy'n cynnwys staff o'r darparydd cyflwyno a'r darparydd dyfarnu, neu lle mae'r asesiadau'n cael eu cynnal gan y darparydd cyflwyno, gall fod yn briodol i'r darparydd cyflwyno gynnal y cam ffurfiol.

(ii) Dylai cam **adolygu** terfynol y broses apeliadau academaidd bob amser gael ei gynnal gan y darparydd dyfarnu. Gall ddewis cynnwys aelodau staff o'r darparydd cyflwyno yn y broses os yw'n dymuno gwneud hynny.

> **PWYNT ALLWEDDOL**
>
> Dylai cam adolygu terfynol y broses apeliadau academaidd bob amser gael ei gynnal gan y darparydd dyfarnu.

**24.** Ni ddylai'r ffaith bod y darparydd dyfarnu yn ymwneud â'r broses ohirio ymdrin ag apêl academaidd y myfyriwr: fel arfer dylid cwblhau'r broses gyfan o fewn 90 diwrnod calendr.

> **PWYNT ALLWEDDOL**
>
> Ni ddylai cyfranogiad y darparydd dyfarnu yn y broses ohirio ymdrin ag apêl academaidd y myfyriwr.

## 3. Ymdrin â chwynion

**25.** Mae proses gwynion dda yn cynnwys tri cham: datrysiad cynnar ar lefel leol; y cam ffurfiol (ymchwilio); a'r cam adolygu. Nodir canllawiau pellach ar fformat y camau hyn yn y prif Fframwaith Arfer Da.

**26.** Mae'n arfer da i'r darparydd cyflwyno gynnal y cam **datrysiad cynnar** o'r broses gwyno. Mae hyn oherwydd mai'r darparydd cyflwyno sydd fel arfer yn y sefyllfa orau i ddatrys pryderon y myfyriwr yn lleol. Dylai'r darparydd cyflwyno ddweud wrth y myfyriwr beth sydd angen iddo ef neu hi ei wneud i symud y gŵyn ymlaen.

> **PWYNT ALLWEDDOL**
>
> Dylai'r darparydd cyflwyno gynnal cam datrysiad cynnar y weithdrefn gwyno, a dylai esbonio i'r myfyriwr sut i symud y gŵyn ymlaen.

**27.** Mae p'un ai yw camau **ffurfiol** ac **adolygiad** y broses gwynion yn cael eu cynnal gan y darparydd cyflwyno neu'r darparydd dyfarnu yn dibynnu ar natur y trefniadau sy'n bodoli rhwng y darparwyr a/neu natur y materion y cwynir amdanynt. Dylai'r weithdrefn ar gyfer cwynion a/neu ddogfennaeth y cwrs gynnwys esboniad byr o'r amgylchiadau lle gall y darparydd dyfarnu ymwneud ag ystyried cwynion. Nid yw'n angenrheidiol i'r ddogfennaeth osod allan yn fanwl sut yr ymdrinnir â phob math o gŵyn.

> **PWYNT ALLWEDDOL**
>
> Bydd pa ddarparydd sy'n ymchwilio i'r gŵyn yn ystod y cam ffurfiol, ac yn mynd ati i gynnal y cam adolygu, yn dibynnu ar natur y gŵyn a'r trefniadau sy'n bodoli rhwng y darparwyr. Dylai'r ddogfennaeth egluro'r amgylchiadau lle bydd y darparydd dyfarnu yn ymwneud â'r broses.

**28.** Lle mae'r gŵyn yn perthyn i'r **safonau academaidd a/neu** ansawdd y cyfle dysgu, dylid cynnal **cam adolygu**'r broses gwynion

gan y darparydd dyfarnu[10]. Gellir cynnal **cam ffurfiol** ymchwiliad i gwynion o'r fath gan y darparydd cyflwyno neu'r darparydd dyfarnu, yn dibynnu ar ba drefniadau sydd ganddynt.

**29.** Ni ddylai cynnwys y darparydd dyfarnu yn y broses ohirio ymdrin â chŵyn y myfyriwr: fel arfer dylid cwblhau'r broses gyfan o fewn 90 diwrnod calendr.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Lle mae'r gŵyn yn perthyn i'r safonau academaidd a/neu ansawdd y cyfle dysgu, dylai'r darparydd dyfarnu ymdrin â cham adolygu'r weithdrefn gwynion. Ni ddylai ei gyfranogiad ohirio ymdrin â'r gŵyn.

**30.** O dan y cytundeb cydweithrediad, gall y darparydd cyflwyno **reoli'r cyfle dysgu o ddydd i ddydd**. Mae'n arfer da i'r darparydd cyflwyno ymdrin â chwynion sy'n codi am faterion o ddydd i ddydd o'r fath sydd o fewn ei reolaeth.

(i) Mae hyn yn debygol o gynnwys cwynion am faterion yn ymwneud â gwasanaeth, er enghraifft cyfleusterau. Y darparydd cyflwyno sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys y cwynion hynny ac ni ddylai fod angen i fyfyrwyr gwyno i'r darparydd dyfarnu am faterion dydd i ddydd o'r fath.

(ii) Dylai'r darparydd cyflwyno fod yn gyfrifol am gynnal y camau **ffurfiol** ac **adolygu**'r broses gwyno ar gyfer y math hwn o gŵyn ac, os yw'n aelod o Gynllun SDA, dylai gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y broses honno. Byddai'r myfyriwr wedyn yn gallu cwyno i SDA os yw'n dymuno gwneud hynny.

(iii) Ni fydd angen i'r darparydd dyfarnu ymyrryd wrth ystyried cwynion o'r fath yma (oni bai bod y materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth wedi cael effaith ar gynnydd neu ganlyniadau academaidd y myfyriwr). Ond mae'n bosibl y bydd gan y darparydd dyfarnu ddiddordeb yn natur a nifer y cwynion sy'n codi yn y darparydd cyflwyno. Mae'n arfer da cadw cofnodion o gwynion er mwyn sicrhau bod pwyntiau dysgu'n cael eu nodi. Dylai'r darparydd cyflwyno roi gwybod i'r darparydd dyfarnu ynglŷn â natur a nifer y cwynion y mae'n eu derbyn.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Lle mae'r darparydd cyflwyno yn rheoli'r cyfle dysgu o ddydd i ddydd, mae'n arfer da iddo ymdrin â chwynion am y materion hynny sydd o fewn ei reolaeth. Dylai'r darparydd cyflwyno roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r darparydd dyfarnu am natur a nifer y cwynion y mae'n eu derbyn.

10 Mae hyn yn adlewyrchu Pennod B10 o God Ansawdd y DU, ASA (ibid) lle mae gan y darparydd dyfarnu bwerau i ddyfarnu graddau yn y DU.

## ASTUDIAETH ACHOS 1

### Cwyn am gyfleusterau

Mae myfyriwr yn astudio gyda Darparydd B ar gyfer gradd BA (Anrh) a ddilysir gan y Darparydd A. Mae gweithdrefn gwyno Darparydd B yn nodi y dylid codi pob cwyn gyda Darparydd B yn y lle cyntaf. Mae'r naill ddarparydd a'r llall yn aelodau o Gynllun SDA.

Mae'r myfyriwr yn cwyno bod y cyfleusterau darlithio sydd gan Ddarparydd B yn orlawn ac mae'r acwsteg yn wael iawn. Mae'r myfyriwr yn cyfeirio ei gŵyn at Ddarparydd B.

O dan y cytundeb rhwng y darparwyr, mae Darparydd B yn gyfrifol am ystyried cwynion ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chyflwyno cyrsiau ac felly mae'r Darparydd B yn myund ati i ystyried y gŵyn.

Nid yw Darparydd B yn cadarnhau'r gŵyn ac, oherwydd ei fod yn aelod o Gynllun SDA, mae'n cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr ar ddiwedd ei weithdrefn gwyno.

Mae Darparydd B yn cadw cofnod o'r gŵyn ac yn cyflwyno adroddiad rheolaidd i Ddarparydd A sy'n cynnwys yr holl gwynion y mae wedi'u derbyn gan fyfyrwyr ar y cwrs.

## ASTUDIAETH ACHOS 2

### Apêl academaidd a chŵyn am oruchwyliaeth prosiect

Mae myfyriwr yn astudio gyda Darparydd B am radd BA (Anrh) a ddilysir gan Ddarparydd A. Mae'r naill ddarparydd a'r llall yn aelodau o Gynllun SDA.

Mae'r myfyriwr yn apelio yn erbyn canlyniad ei brosiect blwyddyn olaf. Roedd adroddiadau adborth gan ei oruchwyliwr wedi dweud bod y prosiect ar y trywydd iawn i ennill marc dosbarth cyntaf. Serch hynny, cafodd ei brosiect farc gwael ac mae adroddiad yr arholwyr yn dweud bod ei ymagwedd yn ddiffygiol yn y bôn. Mae'r myfyriwr yn dadlau bod hyn yn dystiolaeth o oruchwyliaeth wael.

Mae gweithdrefn gwyno Darparydd B yn nodi y dylid cyfeirio pob apêl academaidd at Ddarparydd B yn y lle cyntaf. Nid yw Darparydd B yn cadarnhau'r apêl, ar sail ei fod yn herio barn academaidd y marcwyr. Mae Darparydd B yn esbonio i'r myfyriwr y gall ofyn i Ddarparydd A adolygu penderfyniad Darparydd B o dan amodau penodol a nodir yng ngweithdrefn apeliadau academaidd Darparydd A. Fodd bynnag, mae Darparydd B yn methu â chyfeirio'r myfyriwr at y weithdrefn gwyno o ran ei bryderon ynghylch goruchwyliaeth wael.

Mae'r myfyriwr yn gofyn i Ddarparydd A adolygu penderfyniad Darparydd B ar ei apêl. Mae Darparydd A hefyd yn dod i'r casgliad bod yr apêl yn her i farn academaidd y marcwyr ac felly nid yw'n cadarnhau'r apêl. Mae Darparydd A yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Mae Darparydd A yn nodi bod "goruchwyliaeth wael" wedi'i heithrio'n benodol o'r seiliau ar gyfer apêl ac yn dweud wrth y myfyriwr y gall gwyno am ei oruchwyliaeth i Ddarparydd B. Os caiff cwyn y myfyriwr am oruchwyliaeth wael ei chadarnhau, efallai y bydd datrysiad academaidd ar gael.

## ASTUDIAETH ACHOS 3

Cwyn am safonau addysgu a deunyddiau cwrs
Mae myfyriwr yn astudio gyda Darparydd B am Radd Sylfaenol a ddyfernir gan Ddarparydd A, sy'n brifysgol. Mae'r naill ddarparydd a'r llall yn aelodau o Gynllun SDA.

Mae'r myfyriwr yn cwyno bod darlithydd yn Narparydd B yn siarad Saesneg gwael iawn ac ni all ddilyn y darlithoedd. Mae hi hefyd yn cwyno bod darlithydd arall yn cyrraedd yn hwyr ac yn colli sesiynau tiwtorial ac nad yw'r deunyddiau addysgu yn gyfoes.

Mae gweithdrefn gwyno Darparydd B yn nodi y dylid cyfeirio pob cwyn at Ddarparydd B yn y lle cyntaf. Mae Darparydd B yn ystyried y gŵyn. Nid yw'r myfyriwr yn fodlon â phenderfyniad Darparydd B ar y gŵyn ac mae Darparydd B yn esbonio i'r myfyriwr bod yn rhaid cynnal cam olaf y weithdrefn gwyno gan Ddarparydd A oherwydd bod y gŵyn yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu ar y cwrs.

Nid yw Darparydd A yn cadarnhau'r gŵyn ac mae'n cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr. Os bydd y myfyriwr yn cwyno i SDA, ffocws adolygiad SDA fydd penderfyniad Darparydd A.

### Trefniadau rhwng darparydd Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn yr Ysgol (HCAY) a phrifysgol sy'n bartner iddo

**31.** Mae llawer o ddarparwyr HCAY yn gweithio gyda phrifysgol bartner i gynnig y cyfle i'w hathrawon dan hyfforddiant astudio ar gyfer TAR (a ddyfernir gan y brifysgol). Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, mae'r darparydd HCAY yn gyfrifol am argymell y dylid dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) i'r hyfforddai. Fel arfer caiff cynnwys y cwrs TAR ei gyflwyno a'i oruchwylio gan y brifysgol sy'n dyfarnu, er enghraifft drwy ddarlithoedd neu asesiadau ymarferol.

**32.** Mae'n arfer da i'r rheiny sydd dan hyfforddiant gael gwybodaeth am sut i wneud cwyn neu apêl academaidd, a pha ddarparydd - y HCAY neu'r brifysgol - fydd yn gyfrifol am ystyried y gŵyn neu'r apêl academaidd honno.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i'r rhai sy'n cael hyfforddiant gael gwybodaeth am sut i wneud cwyn neu apêl academaidd, a pha ddarparydd - y HCAY neu'r brifysgol – fydd yn gyfrifol am ystyried y gŵyn neu'r apêl academaidd honno.

ASTUDIAETHAU ACHOS 4

# ASTUDIAETH ACHOS 4

**Hyfforddai HCAY**

Mae hyfforddai'n astudio ar raglen hyfforddiant cychwynnol i athrawon a gynigir gan ddarparydd HCAY. Mae hefyd yn astudio ar gyfer TAR a ddyfernir gan Ddarparydd A, sy'n brifysgol. Mae'r naill ddarparydd a'r llall yn aelodau o Gynllun SDA.

Mae'r hyfforddai'n methu asesiad arsylwi addysgu ac mae'n apelio yn erbyn y methiant hwnnw. Mae'n dweud bod yr oruchwyliaeth a'r hyfforddiant y mae'n eu derbyn yn y darparydd HCAY yn annigonol. Dywed fod hyn wedi effeithio ar ei berfformiad pan oedd ei addysgu'n cael ei arsylwi. Mae hefyd yn honni bod canfyddiad rhesymol o ragfarn oherwydd bod y tiwtor a gynhaliodd yr asesiad, sy'n aelod staff yn Narparydd A, yn teimlo'n ddig tuag ato am iddo gwyno am ei oruchwyliaeth. Mae'r asesiad a fethwyd yn cael effaith ar gynnydd yr hyfforddai tuag at Statws Athro Cymwys ac ar y rhaglen TAR.

Mae'r cytundeb rhwng y darparydd HCAY a Darparydd A yn nodi cyfrifoldebau'r naill a'r llall. Gyda hynny mewn golwg, maent yn penderfynu ymysg ei gilydd beth yw'r ffordd orau o ystyried yr apêl, ac yna'n egluro hynny i'r hyfforddai. Mae'r ddau ddarparydd yn gwrthod yr agweddau o'r apêl y maent wedi eu hystyried ac mae'r naill a'r llall yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r hyfforddai. Mae'r hyfforddai'n cwyno i SDA am benderfyniadau'r ddau ddarparydd.

Yn y sefyllfa hon byddai SDA yn ystyried y gŵyn am ganlyniadau'r apêl a gyhoeddwyd gan y darparydd HCAY a Darparydd A gyda'i gilydd.

# Trefniadau trawswladol

**33.** Yn yr adran hon, mae unrhyw drefniant rhwng darparydd yng Nghymru neu Loegr a darparydd nad yw yng Nghymru neu Loegr yn "drefniant trawswladol". Mae hynny'n cynnwys trefniadau gyda darparwyr yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gan nad yw cylch gwaith SDA yn ymestyn i ddarparwyr yn yr awdurdodaethau hynny.

## Darparwyr yng Nghymru neu Loegr sydd â champysau mewn awdurdodaeth arall

**34.** Mae gan rai darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr gampysau mewn awdurdodaeth arall y maent yn berchen arnynt ac yn eu rheoli. Mae egwyddorion y Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd, yr un mor berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio ar unrhyw gampws y mae aelod o Gynllun SDA yn berchen arno ac yn ei reoli. Felly bydd myfyrwyr sy'n astudio ar gampws sydd ddim yng Nghymru neu Loegr yn gallu cwyno i SDA am rywbeth mae darparydd wedi'i wneud, neu heb ei wneud, yn yr un modd â myfyrwyr sy'n astudio ar y campws yng Nghymru neu Loegr.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae gan ddarparwyr yng Nghymru neu Loegr sy'n berchen ac yn rheoli campws sydd ddim yng Nghymru neu Loegr yr un cyfrifoldebau i fyfyrwyr ar y campws hwnnw ag sydd ganddynt i fyfyrwyr ar eu campws cartref.

## Dyfarniadau ar y cyd (a.y.b.) lle mae un darparydd dyfarnu y tu allan i Gymru a Lloegr

**35.** Mae rhai darparwyr addysg uwch yng Nghymru neu Loegr sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda phartneriaid mewn awdurdodaethau eraill (sydd â phwerau dyfarnu graddau yn eu hawdurdodaethau eu hunain) i gynnig cyfleoedd dysgu sy'n arwain, er enghraifft, at ddyfarniad ar y cyd, lluosog, deuol neu gydamserol. Mae mathau eraill o drefniant ac mae'n debygol y daw modelau cyflwyno newydd i'r amlwg.

**36.** Yn gyffredinol, mater i'r darparwyr yw penderfynu ymysg ei gilydd sut i ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd. Serch hynny, mae hyn yn amodol ar y canllawiau a'r egwyddorion a nodir isod. Dylai unrhyw ddarparydd yng Nghymru neu Loegr sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU sy'n gwneud trefniant â darparydd partner mewn awdurdodaeth arall fodloni'r "Disgwyliad" ym Mhennod B10 o God Ansawdd Addysg Uwch y DU, ASA, a dilyn y Dangosyddion ar gyfer Arfer Da[11]. Yn ogystal â hynny, mae'n arfer da i'r darparydd yng Nghymru neu Loegr sicrhau:

(i) bod y wybodaeth a roddir i fyfyrwyr yn nodi'n glir sut ac i bwy y dylai myfyrwyr wneud cwyn neu apêl academaidd;

(ii) y dylai myfyriwr allu dod â chŵyn at SDA am unrhyw beth a wnaed neu a esgeuluswyd gan ddarparydd sy'n dod o fewn cylch gwaith SDA; a

(iii) nad yw'n dirprwyo ei gyfrifoldeb dros ansawdd a safonau academaidd ei ddyfarniadau (hyd yn oed os dyfernir hwy ynghyd â darparydd tramor arall).

**37.** Gall y darparwyr gytuno ymysg ei gilydd y bydd y darparydd sydd ddim yng Nghymru neu Loegr yn gyfrifol am ymdrin â chwynion myfyrwyr a/neu apeliadau academaidd. Gall y darparydd hwnnw fod yn gweithredu o dan wahanol safonau neu ganllawiau ar gyfer ymdrin â chwynion neu apeliadau academaidd ac felly mae'n bosibl na fydd ei weithdrefnau yn cydymffurfio ag egwyddorion y Fframwaith Arfer Da.

11 ibid.

**38.** Efallai y bydd angen i'r darparydd yng Nghymru neu Loegr gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y broses hyd yn oedmewn achosion lle nad yw wedi cynnal y broses honno. Dyma fydd yr achos lle mae'r gŵyn neu'r apêl academaidd yn ymwneud â mater y mae'r darparydd yng Nghymru neu Loegr yn gyfrifol amdano yn y pen draw, megis ansawdd academaidd a safonau cyfleoedd dysgu sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau (hyd yn oed os ydynt yn cael eu dyfarnu ynghyd â darparydd arall).

**39.** Yn yr achosion hynny, mater i'r darparydd yng Nghymru neu Loegr fydd penderfynu a ddylai fynd ati i gynnal ei adolygiad ei hun o'r mater, neu fabwysiadu penderfyniad y darparydd sy'n bartner iddo. Os yw'r darparydd yng Nghymru neu Loegr yn penderfynu mabwysiadu penderfyniad y darparydd sy'n bartner iddo, byddai angen iddo fod â hyder yng ngweithdrefnau a phroses gwneud penderfyniadau ei bartner. Mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried pan gaiff y bartneriaeth ei sefydlu, a gellir ei fonitro fel rhan o drefniadau sicrhau ansawdd. Fel mater o arfer da, ni ddylai'r myfyriwr orfod aros yn hirach am benderfyniad neu fynd drwy gamau diangen oherwydd cyfranogiad y darparydd yng Nghymru neu Loegr.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Ni chaiff darparwyr dyfarnu yng Nghymru a Lloegr ddirprwyo eu cyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd eu dyfarniadau. Dylai myfyrwyr fod yn gallu dod â chŵyn at SDA am unrhyw beth a wnaed neu a esgeuluswyd gan ddarparydd sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.

**40.** Gall y darparydd nad yw yng Nghymru neu Loegr fod â threfniadau gwahanol ar gyfer sicrhau ansawdd neu ymdrin â chwynion gan fyfyrwyr. Ystyrir hyn ymhellach ym mharagraffau 47 i 50 isod.

## Darparwyr cyflwyno yng Nghymru neu Loegr sydd â darparwyr dyfarnu y tu allan i Gymru a Lloegr

**41.** Mae rhai darparwyr yng Nghymru neu Loegr yn cyflwyno cyrsiau sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster gan ddarparydd nad yw yng Nghymru neu Loegr, fel arfer un sydd â phwerau dyfarnu graddau yn ei awdurdodaeth ei hun. Er enghraifft, gall myfyrwyr fod yn astudio mewn coleg yn Lloegr am radd a ddyfernir gan brifysgol yn yr Alban, yr Eidal neu'r Unol Daleithiau.

**42.** Mae'r darparydd dyfarnu yn debygol o ddal gafael yn y cyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd cyffredinol unrhyw gyfle dysgu sy'n arwain at ddyfarnu un o'i gymwysterau (fel y gwna darparydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU). Mae cylch gwaith SDA yn ymestyn i ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn unig, ac ni fydd egwyddorion y Fframwaith Arfer Da yn berthnasol i ddarparwyr sydd ddim yng Nghymru neu Loegr. Ni fydd gan SDA unrhyw awdurdodaeth i ystyried cwynion am faterion y mae'r darparydd dyfarnu yn gyfrifol amdanynt.

**43.** Os yw'r darparydd cyflwyno yng Nghymru neu Loegr yn aelod o Gynllun SDA, mae'r Fframwaith Arfer Da, gan gynnwys y canllawiau hyn, yn berthnasol. Byddai SDA yn gallu ystyried cwynion am rywbeth a wnaed neu a esgeuluswyd gan ddarparydd cyflwyno yng Nghymru neu Loegr, cyn belled â'i fod yn dod o fewn cylch gwaith SDA.[12]

12 Dim ond os ydynt yn astudio ar gwrs addysg uwch y caiff myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr a ymunodd â Chynllun SDA yn sgil Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 gwyno i SDA. Gweler http://www.oiahe.org.uk/glossary.aspx#hecourse

## Darparwyr dyfarnu yng Nghymru neu Loegr a darparwyr cyflwyno y tu allan i Gymru a Lloegr

**44.** Mae rhai darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr wedi gwneud trefniadau gyda darparydd partner sydd ddim yng Nghymru neu Loegr, fel bo'r partner yn darparu cyfleoedd dysgu sy'n arwain (neu'n cyfrannu) at un o'u dyfarniadau.

**45.** Yn aml, bydd gan y darparydd dyfarnu yng Nghymru neu Loegr bwerau dyfarnu graddau yn y DU, ac felly bydd yn cadw'r cyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd cyffredinol unrhyw gyfle dysgu sy'n arwain at ddyfarnu un o'i gymwysterau. Fel darparydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU, bydd y darparydd dyfarnu yng Nghymru neu Loegr yn aelod o Gynllun SDA, ac mae'r Fframwaith Arfer Da, gan gynnwys y canllawiau hyn, yn berthnasol. Bydd SDA yn gallu ystyried cwynion myfyriwr am rywbeth a wnaed neu a esgeuluswyd gan ddarparydd cyflwyno, cyn belled â'i fod yn dod o fewn cylch gwaith SDA.

**46.** Serch hynny, ni fydd y partner cyflwyno yn aelod o SDA (mae cylch gwaith SDA yn ymestyn i ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn unig). Felly, ni fydd myfyrwyr sy'n astudio yn y partner cyflwyno yn gallu mynd â chŵyn at SDA am faterion y mae'r partner cyflwyno yn gyfrifol amdanynt o dan ei drefniant gyda'r darparydd dyfarnu.[13]

## Gofynion rheoleiddio

**47.** Mae'n bosibl y bydd gan awdurdodaethau eraill eu trefniadau sicrhau ansawdd a/neu drefniadau trin cwynion myfyrwyr eu hunain. Dylai darparwyr yn y DU sydd â phartneriaid mewn awdurdodaethau eraill weithio allan ymysg ei gilydd sut mae'r gofynion hynny'n cyd-fynd â gofynion domestig.

**48.** Os bydd rheoliadau sy'n lleol i awdurdodaeth y darparydd partner yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gael mynediad at reoleiddiwr allanol neu ombwdsmon yn yr awdurdodaeth honno, yna mater i'r darparwyr yw penderfynu sut y byddai'r trefniadau hynny yn cyd-fynd â hawl myfyrwyr i wneud cwyn i SDA am faterion na all y darparydd yng Nghymru neu Loegr eu dirprwyo, fel ansawdd a safonau academaidd y cymwysterau y mae'n eu dyfarnu.

**49.** Nid yw o fudd i'r darparwyr na'r myfyrwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr fynd drwy - neu allu mynd drwy - sawl gwahanol gorff allanol er mwyn cael datrysiad boddhaol i'w cwyn neu apêl academaidd. Dylai gweithdrefnau'r darparwyr nodi'n glir yr opsiynau sydd ar gael i fyfyrwyr yn y gwahanol awdurdodaethau.

**50.** Un opsiwn fyddai i fyfyrwyr gael dewis pa lwybr i'w dilyn ar gyfer datrysiad allanol. Ni all SDA ond gwrthod cwyn os yw wedi cael ei hystyried gan lys neu gan endid Datrys Anghydfod Amgen arall yr UE (corff Ewropeaidd cydnabyddedig ar gyfer ymdrin â chwynion), neu os nad yw'n gymwys am ryw reswm arall o dan Reolau Cynllun SDA. Felly, mae'n bosibl y bydd y myfyriwr yn dewis dilyn y llwybr tramor o geisio datrysiad, ond wedyn yn cwyno i SDA. Wrth adolygu cwyn o'r fath, mae'n debygol y byddai SDA yn ystyried y gweithdrefnau perthnasol, y ffaith bod y myfyriwr wedi cael dewis pa lwybr i'w ddilyn, a bod y myfyriwr eisoes wedi ceisio datrysiad drwy gorff allanol arall.

**51.** Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos rhai pwyntiau cyffredinol i'w hystyried. Bydd llawer yn dibynnu ar y ffordd y mae'r trefniant wedi'i strwythuro a lleoliad awdurdodaeth y partner.

13 Dyma hefyd beth sy'n digwydd pan fo'r darparydd cyflwyno yng Nghymru neu Loegr ond nad yw'n aelod o Gynllun SDA.

## ASTUDIAETH ACHOS 5

**Gradd ar y cyd - apêl academaidd**

Mae myfyriwr yn astudio ar gyfer gradd Meistr a ddyfernir ar y cyd gan Ddarparydd A, prifysgol yn Lloegr, a Darparydd B, prifysgol yn yr Iseldiroedd. Mae myfyrwyr yn rhannu eu hamser rhwng y naill ddarparydd a'r llall.

O dan telerau'r cytundeb cydweithredol rhwng y darparwyr, mae Darparydd B yn gyfrifol am ystyried apeliadau academaidd. Mae rheoliadau a'r llawlyfr ar gyfer y rhaglen hefyd yn esbonio i fyfyrwyr bod pob apêl academaidd yn cael ei hystyried gan Ddarparydd B, hyd yn oed os cyflwynwyd yr asesiad a arweiniodd at yr apêl i Ddarparydd A, oedd hefyd yn gyfrifol am ei farcio.

Caiff traethawd hir y myfyriwr ei farcio gan Ddarparydd A. Mae'n cyflwyno apêl academaidd i Ddarparydd B ar sail anghysondeb gweithdrefnol wrth farcio ei thraethawd hir gan Ddarparydd A. Caiff yr apêl ei hystyried gan Ddarparydd B, sy'n ei gwrthod.

Mae Darparydd B yn hysbysu Darparydd A am ganlyniad yr apêl ac mae Darparydd A yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr. Bydd hyn yn galluogi'r myfyriwr i gwyno i SDA os yw'n dymuno gwneud hynny.

### PWYNT ALLWEDDOL

Dylai'r myfyriwr allu cwyno i SDA am yr hyn a wnaed neu a esgeuluswyd gan Ddarparydd A, lle bynnag y cynhelir y weithdrefn apêl academaidd.

## ASTUDIAETH ACHOS 6

**Gradd ar y cyd - cwyn am lety**

Mae myfyriwr yn astudio ar gyfer gradd Meistr a ddyfernir ar y cyd gan Ddarparydd A, prifysgol yn Lloegr, a Darparydd B, prifysgol yn Ffrainc. Mae myfyrwyr yn rhannu eu hamser rhwng y naill ddarparydd a'r llall. O dan y cytundeb rhwng y darparwyr, mae'r naill ddarparydd a'r llall yn gyfrifol am ymdrin â chwynion sy'n codi tra bod y myfyriwr yn astudio gyda nhw.

Wrth astudio gyda Darparydd A, mae'r myfyriwr yn cwyno wrth Ddarparydd A am safon y llety sydd ar gael. Mae darparydd A yn ceisio datrys y gŵyn yn anffurfiol. Mae'r myfyriwr yn dal i fod yn anfodlon ac felly mae Darparydd A yn ystyried y gŵyn o dan y cam ffurfiol ac yna'r cam adolygu o'i weithdrefn gwyno.

Caiff y gŵyn ei chadarnhau yn ystod y cam adolygu. Yn y llythyr canlyniad, mae Darparydd A yn hysbysu'r myfyriwr y bydd yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau iddo os yw'n gofyn am un.

### PWYNT ALLWEDDOL

Dylid ystyried cwynion am y gwasanaeth a ddarperir gan Ddarparydd A o dan weithdrefnau Darparydd A.

## ASTUDIAETH ACHOS 7

### Rhaglen ar y cyd â thri darparydd dyfarnu

Mae myfyriwr yn astudio ar gyfer gradd a ddyfernir ar y cyd gan Ddarparwyr A, B ac C. Mae'r tri darparydd yng Nghymru, Ffrainc a Gwlad Belg yn y drefn honno. Mae'r rhaglen gradd wedi'i strwythuro fel bod myfyrwyr yn treulio blwyddyn yn astudio ym mhob un ohonynt.

O dan eu cytundeb, Darparydd B yw'r "prif" ddarparydd, ac mae'n gyfrifol am ymdrin â phob cwyn ac apêl academaidd gan fyfyrwyr. Mae'r myfyriwr yn cyflwyno apêl yn erbyn canlyniad terfynol ei gradd ar sail rhagfarn ym mhroses asesu Darparydd C. Mae darparydd B yn ystyried yr apêl academaidd ac yn ei gwrthod.

Mae cywirdeb y broses asesu yn ymwneud â safonau academaidd y cymhwyster y mae Darparydd A yn gyfrifol amdanynt ar y cyd. Felly, mae Darparydd A yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ddiwedd y broses apêl academaidd, er i'r broses gael ei chynnal gan Ddarparydd B. Bydd hyn yn galluogi'r myfyriwr i gwyno i SDA am ganlyniad yr apêl academaidd.

Mae'r un myfyriwr yn cwyno am gyfleusterau'r ystafelloedd darlithio yn Narparydd A. Darparydd B sy'n gyfrifol am bob cwyn o dan delerau'r cytundeb ac felly mae'n ystyried y gŵyn. Fodd bynnag, mae hwn yn fater a gododd pan oedd y myfyriwr yn astudio yn Narparydd A. Dylai Darparydd A ystyried y gŵyn ei hun a/neu gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau ar ôl i Ddarparydd B ystyried y gŵyn fel y gall y myfyriwr gwyno i SDA.

## ASTUDIAETH ACHOS 8

### Dyfarniad deuol

Mae Darparydd A, prifysgol yn Lloegr, a Darparydd B, prifysgol yn UDA, wedi datblygu rhaglen gydweithredol lle mae myfyrwyr yn derbyn gradd y DU a gradd yn Unol Daleithiau ar ddiwedd y cwrs. Mae myfyrwyr yn astudio yn y DU ac UDA am yn ail.

O dan y cytundeb cydweithredol, mae'r naill Ddarparydd a'r llall yn gyfrifol am ystyried cwynion neu apeliadau academaidd gan fyfyrwyr pan fyddant yn astudio ar eu campws nhw.

Mae myfyriwr sy'n astudio gyda Darparydd B yn cwyno am lefel yr addysgu yn Narparydd B. Mae Darparydd B yn ystyried y gŵyn honno. Fodd bynnag, gan fod y gŵyn honno'n ymwneud ag ansawdd academaidd y cyfle dysgu, mae Darparydd A yn dal i fod yn gyfrifol amdano.

Daw Darparydd B o dan awdurdodaeth ombwdsmon lleol. Ar ddiwedd y gŵyn, mae Darparydd B yn ysgrifennu at y myfyriwr yn cynnig y dewis iddi wneud cwyn i'r ombwdsmon lleol neu i SDA. Os bydd y myfyriwr yn dewis cwyno i SDA, mae Darparydd A yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Ni ddylai Darparydd A atal myfyriwr rhag cwyno i SDA am faterion y mae'n gyfrifol amdanynt.

# Darparwyr â threfniadau cydweithredol lluosog

**52.** Mae llawer o ddarparwyr wedi ymgymryd â threfniadau cydweithredol lluosog gyda sawl darparydd gwahanol. Gall y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd amrywio yn dibynnu ar natur y cytundeb rhwng y darparydd cyflwyno a'r darparydd dyfarnu.

**53.** Dylai gweithdrefnau'r darparydd a/neu ddogfennaeth y cwrs egluro i fyfyrwyr sut i gyflwyno cwyn neu apêl academaidd a, lle y bo'n briodol, amlinellu'r amgylchiadau lle gall y gwahanol ddarparwyr yn y trefniant ymwneud â'r broses. Mae crynodeb yn ddigonol; nid oes angen i'r ddogfennaeth nodi'n fanwl sut yr ymdrinnir â phob math o gŵyn neu apêl academaidd. Dylai'r darparydd y cyfeirir y gŵyn neu'r apêl academaidd ato yn y lle cyntaf roi gwybodaeth glir i'r myfyriwr ynghylch sut i symud y gŵyn neu'r apêl academaidd yn ei blaen.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Dylai darparwyr esbonio'n glir i fyfyrwyr sut i gyflwyno cwyn neu apêl academaidd, pwy fydd yn ei hystyried, a sut y gall y myfyriwr ei symud ymlaen i'r lefel nesaf.

# Pan fydd trefniadau rhwng darparwyr partner yn dod i ben

**54.** Gall darparwyr benderfynu terfynu eu trefniant cydweithredol. Dylid diogelu buddiannau myfyrwyr mewn sefyllfa o'r fath. Mae'n arfer da sicrhau bod trefniadau wrth gefn i sicrhau bod apeliadau academaidd a chwynion gan fyfyrwyr yn dal i gael eu trin yn deg, a bod datrysiadau ar gael o hyd. Dylai unrhyw newidiadau yn y ffordd yr ymdrinnir â chwynion neu apeliadau academaidd o ganlyniad i ddod â'r trefniant i ben gael eu hesbonio'n glir i fyfyrwyr, a hynny heb unrhyw oedi.

# Rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr

**55.** Ceir adborth gwerthfawr o gwynion ac apeliadau academaidd, a dylid defnyddio'r hyn a ddysgir i wella profiad myfyrwyr. Mae'n arfer da i ddarparwyr sy'n cydweithio i ddarparu cyfleoedd dysgu i rannu gwybodaeth am gwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr ar eu cyrsiau. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan nad yw'n ofynnol i ddarparydd dyfarnu ymwneud â'r broses gwynion neu apeliadau academaidd.

**56.** Er enghraifft, gallai darparydd sy'n cyflwyno cwrs sy'n arwain at radd a ddyfernir gan brifysgol roi crynodeb rheolaidd i'r brifysgol honno o unrhyw gwynion neu apeliadau academaidd a dderbyniwyd gan fyfyrwyr ar y cwrs hwnnw. Dylai'r data fod yn ddienw fel sy'n briodol.

**57.** Yn yr un modd, mae'n arfer da i ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd i gynnig cyfleoedd dysgu i rannu gwybodaeth â'i gilydd am gwynion a wneir i SDA gan fyfyrwyr o dan y trefniant. Er enghraifft, mae'n arfer da i ddarparydd dyfarnu a gyhoeddodd Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau i fyfyriwr ar ddiwedd gweithdrefn apeliadau academaidd, i hysbysu'r darparydd cyflwyno os yw'r myfyriwr yn mynd ymlaen i gwyno i SDA, ac i rannu unrhyw benderfyniad a wneir gan SDA yn ei sgil â'r darparydd cyflwyno. Yn yr un modd, mae'n arfer da i ddarparydd cyflwyno roi gwybod i'r darparydd dyfarnu perthnasol os bydd myfyriwr y mae'r darparydd cyflwyno wedi cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau iddo yn mynd ymlaen i gwyno i SDA, ac i rannu unrhyw benderfyniad a wneir gan SDA yn ei sgil â'r darparydd dyfarnu.

**58.** Mae'r rhannu gwybodaeth yma yn sicrhau y gellir dynodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd cwynion ac apeliadau academaidd a, lle bo'n briodol, gellir trefnu cyfleoedd hyfforddi a chyflwyno gwelliannau.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i ddarparwyr sy'n cydweithio i gynnig cyfleoedd dysgu er mwyn rhannu gwybodaeth am gwynion ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr ar eu cyrsiau.

# Prydlondeb

**59.** Os yw'n fwriad i fwy nag un darparydd ystyried cwyn neu apêl academaidd myfyriwr, mae'n arfer da i'r darparwyr hynny gyda'i gilydd gwblhau eu hystyriaeth o'r gŵyn neu'r apêl academaidd honno yn ffurfiol, ynghyd ag unrhyw adolygiad cysylltiedig, o fewn 90 diwrnod calendr.

**60.** Weithiau bydd amgylchiadau pan fydd angen i'r darparydd ymestyn y cyfnod hwn, a hynny am reswm da. Yn benodol, cydnabyddir ei bod yn bosibl na fydd darparwyr yng Nghymru a Lloegr yn gallu rheoli'r amserlen a weithredir gan ddarparwyr partner mewn awdurdodaethau eraill nad yw'r Fframwaith Arfer Da yn berthnasol iddynt. Lle mae'n fwriad ymestyn yr amserlen, dylid hysbysu'r myfyriwr a dylid ei gadw'n gyfoes ynglŷn â chynnydd ei gŵyn neu apêl academaidd.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Mae'n arfer da i gwblhau prosesau ymdrin â chŵyn neu apêl academaidd ffurfiol, ynghyd ag unrhyw adolygiad cysylltiedig, o fewn 90 diwrnod calendr lle bynnag bo hynny'n bosibl.

# Rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr

**61.** Dylid cyfeirio myfyrwyr at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'w cynorthwyo i wneud cwyn neu apêl academaidd. Er enghraifft, mewn darparwyr llai, gallai hyn fod yn gynrychiolydd carfan neu gynrychiolydd cwrs neu'n aelod o staff lles myfyrwyr.

**62.** Os nad oes gan ddarparydd wasanaeth cynghori myfyrwyr neu gorff cynrychioli myfyrwyr datblygedig, dylai ystyried gwneud trefniadau gyda'i ddarparwyr partner, neu gyda darparwyr cyfagos eraill, i alluogi ei fyfyrwyr i gael mynediad i'w gwasanaethau cymorth nhw.

**PWYNT ALLWEDDOL**

Dylai fod gan fyfyrwyr fynediad at wasanaethau cymorth i'w cynorthwyo i wneud cwyn neu apêl academaidd.

# Atodlen: Cymwysterau a ddyfernir gan sefydliadau dyfarnu allanol yng Nghymru a Lloegr

## Cefndir

**63.** Mae llawer o ddarparwyr yng Nghymru a Lloegr yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch sy'n arwain at gymwysterau a ddyfernir gan sefydliad dyfarnu allanol sy'n cael ei reoleiddio gan Ofqual (Lloegr) a/neu Gymwysterau Cymru (Cymru). Mae rhaglenni fel Tystysgrif Genedlaethol Uwch a Diploma Cenedlaethol Uwch yn enghreifftiau o hyn, a ddyfernir gan Pearson neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban.

**64.** Mae'r sefydliad dyfarnu yn gyfrifol am ansawdd a safonau cyffredinol y cymwysterau y mae'n eu dyfarnu. Felly, bydd gan y sefydliad dyfarnu rywfaint o gyfrifoldeb dros ymdrin â chwynion ynghylch materion yn perthyn i safonau academaidd ac apeliadau academaidd gan fyfyrwyr ar y math hwn o gwrs.

**65.** Yn aml, bydd y darparydd cyflwyno yn aelod o Gynllun SDA. Fodd bynnag, nid yw'r sefydliad dyfarnu fel arfer yn aelod o Gynllun SDA; nid yw'r sefydliadau dyfarnu hyn yn Sefydliadau Cymwys at ddibenion SDA, er y gallant ymuno â Chynllun SDA yn wirfoddol (fel Sefydliadau Anghymwys).

**66.** Mae'r canllawiau a nodir isod yn tybio bod y darparydd cyflwyno yn aelod o Gynllun SDA ac nid yw'r sefydliad dyfarnu yn aelod o Gynllun SDA. Gall darparydd ddirprwyo cyflwyno cyrsiau a ddyfernir yn allanol i ddarparydd arall. Gallai cyfeiriadau yn yr atodlen hon at 'ddarparydd cyflwyno' fod y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn dibynnu ar y cyd-destun.

**67.** Nid yw'r canllawiau yn yr Atodlen hon yn berthnasol i gymwysterau addysg uwch a ddyfernir gan ddarparydd sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU o dan drwydded gan sefydliad dyfarnu allanol. O dan y cytundeb trwydded, y darparydd sydd â phwerau dyfarnu graddau'r DU yw'r corff dyfarnu sy'n gyfrifol am ansawdd y cymhwyster, ac nid yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio gan Ofqual na Chymwysterau Cymru.

## Ymagwedd SDA, y cytunwyd arno gydag Ofqual a Chymwysterau Cymru

**68.** Dylai myfyrwyr sy'n astudio ar gwrs addysg uwch sy'n arwain at gymhwyster gan sefydliad dyfarnu allanol fod yn gallu cwyno i SDA am yr hyn a wnaed neu a esgeuluswyd gan y darparydd cyflwyno[14]. Dylai'r darparydd cyflwyno gyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gan ddefnyddio'r templed priodol[15], ar ddiwedd gweithdrefn fewnol yn y ffordd arferol.

**69.** Os bydd yn derbyn cwyn, bydd SDA yn nodi'n gyntaf a yw'r gŵyn yn perthyn i: (1) weithred neu esgeulustod ar ran y darparydd cyflenwi yn ymwneud â'r gwasanaeth a ddarparwyd sydd o fewn cylch gwaith SDA; neu (2) ansawdd neu safonau cyffredinol y cymhwyster ei hun.

---

14 Lle mae'r myfyriwr yn astudio mewn darparydd a ymunodd â Chynllun SDA o ganlyniad i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, a daeth i rym ar 1 Medi 2015, rhaid i'r cwrs fod yn gwrs AU at ddibenion SDA. http://www.oiahe.org.uk/glossary.aspx#cwrs

15 Llythyr Templed CG - Cymwysterau corff dyfarnu allanol

(i) Os yw SDA o’r farn bod y gŵyn yn ymwneud â rhywbeth a wnaed neu a esgeuluswyd gan y darparydd sy’n perthyn i’r gwasanaeth a ddarperir, a bod hynny’n dod o fewn cylch gwaith SDA (categori (1) uchod), bydd yn adolygu’r gŵyn honno o dan ei weithdrefnau adolygu arferol.

(ii) Os yw SDA o’r farn bod y gŵyn yn ymwneud ag ansawdd neu safonau cyffredinol y cymhwyster ei hun (categori (2) uchod), bydd yn hysbysu’r myfyriwr ac yna’n anfon copi o’r gŵyn ymlaen i’r sefydliad dyfarnu perthnasol. Ni fydd SDA yn cymryd unrhyw gamau pellach parthed y gŵyn honno.

## ASTUDIAETH ACHOS 9

Mae myfyriwr yn astudio gyda Darparydd A, aelod o Gynllun SDA, ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol Uwch a ddyfernir gan sefydliad dyfarnu allanol.

Mae'r myfyriwr yn cwyno am gyfleusterau gwael yn Narparydd A a hefyd bod aelod o staff Darparydd A wedi ei fwlio. Mae Darparydd A yn ystyried y gŵyn ac yn ei gwrthod. Mae Darparydd A yn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr ac mae'r myfyriwr yn cwyno i SDA.

Mae SDA yn penderfynu ei bod yn gallu ystyried y gŵyn gan ei bod yn ymwneud â materion y mae Darparydd A yn gyfrifol amdanynt.

## ASTUDIAETH ACHOS 10

Mae myfyriwr yn astudio gyda Darparydd A, aelod o Gynllun SDA, ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan sefydliad dyfarnu allanol.

Mae'r myfyriwr yn cyflwyno apêl academaidd i Ddarparydd A ar sail anghysondeb gweithdrefnol wrth farcio un o'i hasesiadau. Roedd asesiadau'r garfan wedi cael eu safoni'n allanol gan asesydd y sefydliad dyfarnu. Mae Darparydd A yn gwrthod yr apêl ac mae'n cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyriwr. Mae'r myfyriwr yn cwyno i SDA.

Mae SDA yn anfon y gŵyn ymlaen at y sefydliad dyfarnu, ar ôl penderfynu ei bod yn ymwneud â threfniadau'r sefydliad dyfarnu ar gyfer rheoli ansawdd cyffredinol y cymhwyster ei hun.

# Prydlondeb

Mae **ansawdd academaidd** yn ymwneud â pha mor dda mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu galluogi i ennill eu cymhwyster. Mae'n ymwneud â sicrhau bod addysgu, cefnogaeth, asesiad ac adnoddau dysgu priodol ac effeithiol yn cael eu darparu ar eu cyfer.[16]

**Safonau academaidd** yw'r safonau y mae cyrff dyfarnu graddau unigol yn eu gosod a'u cynnal ar gyfer dyfarnu ei gredydau neu gymwysterau academaidd. Gall y rhain fynd y tu hwnt i'r trothwy ar gyfer safonau academaidd (y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol i fyfyriwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i ennill cymhwyster academaidd). Mae cyrff dyfarnu graddau unigol yn gyfrifol am ddiffinio eu safonau academaidd eu hunain drwy osod y marciau pasio a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthiad cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyflawniad myfyrwyr uwchlaw ac islaw'r trothwy ar gyfer safonau academaidd.[17]

**Trefniant rhyddfraint neu ddarpariaeth ryddfreiniol:** Cytundeb gan un darparydd (y 'darparydd rhyddfreinio'), fel arfer un sydd â phwerau dyfarnu graddau, y gall darparydd arall gyflwyno rhaglen gyfan neu ran ohoni a gymeradwywyd ac sy'n eiddo i'r darparydd rhyddfreinio. Fel arfer, bydd myfyrwyr yn cael eu cofrestru gyda'r darparydd rhyddfreinio, a bydd ganddynt berthynas gytundebol uniongyrchol â'r sefydliad hwnnw. Mae'r darparydd rhyddfreinio fel arfer yn cadw rheolaeth gyffredinol ar gynnwys, cyflwyniad, asesiad a threfniadau sicrhau ansawdd y rhaglen. Weithiau cyfeirir at drefniadau o'r fath fel trefniadau 'is-gytundebol'.

**Trefniant dilysu neu ddarpariaeth wedi'i dilysu:** Cytundeb lle mae un darparydd (y 'darparydd dyfarnu'), fel arfer un â phwerau dyfarnu graddau, yn barnu rhaglen gyfan neu ran ohoni a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan ddarparydd arall (y 'darparydd cyflwyno') ac sy'n ei chymeradwyo fel un sydd o safon ac ansawdd briodol i gyfrannu, neu arwain, at un o gymwysterau'r darparydd dyfarnu. Fel arfer mae gan fyfyrwyr berthynas gytundebol uniongyrchol â'r darparydd cyflwyno.

16 Llawlyfr Ymweliad Adolygu Ansawdd ASA

17 Llawlyfr Ymweliad Adolygu Ansawdd ASA

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er Addysg Uwch**

Second Floor
Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813
e-bost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk